**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 11 Hydref 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A M Day | S M Jones | W G Lewis |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

Swyddogion

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): K M Griffiths ac E T Kirchner

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfod ar 9 Mawrth 2022 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Rôl Panel Craffu Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

Trafododd yr Aelodau rôl y Panel. Cododd y Cynullydd nifer o bwyntiau. Teimlodd y byddai'n dda gweld mwy o aelodau ar y Panel, ond y cryfder mawr yw bod llawer o'r

aelodau'n brofiadol. Nododd y bydd y Panel yn parhau i ddal yr adran i gyfrif mewn ffordd adeiladol.

## 6 Trosolwg o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn Abertawe

Cyflwynodd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal, drosolwg o Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn Abertawe, gan gynnwys heriau a blaenoriaethau. Aeth y Pennaeth Gwasanaeth drwy'r Adroddiad Perfformiad.

Pwyntiau Trafod:

- Rhoddwyd gwybod i'r panel am lawer o bwysau ar y gwasanaeth, yn enwedig recriwtio gweithwyr cymdeithasol a lleoliadau. Fodd bynnag, mae'r holl ofynion statudol allweddol yn cael eu bodloni ac mae rhai pethau cadarnhaol yn adroddiad perfformiad mis Awst. Mae'r blaenoriaethau'n parhau i gynnwys atal ac ymyrryd yn gynnar.
- Clywodd y panel fod y prif arolygydd lleol yn falch iawn gyda chynnydd yr adroddiad perfformiad a bod yr adran wedi ystyried canfyddiadau'r bwrdd yn dilyn yr arolwg diwethaf ychydig flynyddoedd yn ôl.
- Gofynnodd y panel a oedd y manylion ychwanegol wedi darparu unrhyw arweiniad pellach ar gyfer yr adran o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol a dyrannu adnoddau. Nodwyd y defnyddir data er mwyn llywio a dylanwadu ar sut mae'r adran yn targedu adnoddau.
- Gofynnodd y panel am staff sydd wedi'u cymhwyso mewn ffordd arall - sut maent yn debygol o gael eu recriwtio; lefelau cyflog priodol; faint o hyblygrwydd sydd gan y cyngor yn y pecyn y mae'n ei gynnig i'w wneud yn ddeniadol. Rhoddwyd gwybod i'r panel bod y cyngor yn gyflogwr cyflog byw ac mae'r ffaith y cynigir cyfle i gamu ymlaen yn eich gyrfa'n gryfder yn Abertawe. Mae Arweinydd Datblygu'r Gweithlu ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn helpu i ddatblygu llwybr dilyniant ar gyfer pob agwedd ar y gwasanaeth. Mae'r cyngor yn cynnig amodau gwaith hyblyg ac ystwyth ac yn cefnogi lles mewn ffordd gadarnhaol.
- Gofynnodd y panel a oes unrhyw gwmpas i wneud unrhyw beth gyda gwirfoddolwyr banciau bwyd, y byddai nifer ohonynt yn gwerthfawrogi arweiniad o ran beth i'w wneud os byddant yn cwrdd â theulu sy'n achosi pryder. Rhoddwyd gwybod bod CGGA yn cynnig hyfforddiant diogelu i wirfoddolwyr a gallai ehangu'r cynnig hwn drwy CGGA fod yn werthfawr er mwyn eu helpu i ddeall continwwm angen y gwasanaeth, a all eu helpu i ddeall beth i'w gyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Gall y gwasanaeth hefyd eu cysylltu â'i Ganolfannau Cymorth Cynnar. Mae'n cynnal cyfarfodydd Canolfannau Cymorth Cynnar lleol, a fyddai'n lle da i gael y sgwrs hon i helpu gyda dealltwriaeth a sicrwydd.
- Mae'r panel yn falch bod y system WCCIS yn parhau i ddatblygu a theimlodd fod y data perfformiad newydd a gyflwynwyd yn eithaf trawiadol. Cytunodd y Cyfarwyddwr.
- Gofynnodd y panel a oedd gofal maeth gyda chyswllt teulu'n cynnwys teidiau a neiniau neu deulu agos yn unig. Dywedwyd y gall eu cynnwys, ond mae'n dibynnu ar amgylchiadau unigol y plentyn dan sylw.
- Rhoddwyd gwybod i'r panel y gallai'r cyngor gael pedwar cartref i blant ar draws Abertawe yn y 12 mis nesaf o bosib.

- Clywodd y panel fod cartrefi a gynhelir yn breifat yn Abertawe'n creu lefel o alw o fewn y gwasanaeth ac o ran yr Heddlu ac Iechyd.

Camau Gweithredu:

- Bydd swyddogion yn gwneud gwaith dilynol gyda'r CGGA o ran helpu i wella hyfforddiant diogelu i wirfoddolwyr a byddant yn adrodd yn ôl i'r panel.
- Bydd swyddogion yn trefnu i gysylltu gwirfoddolwyr â Chanolfannau Cymorth Cynnar.

## 7 **Rhaglen Waith ddrafft 2022-23**

Cytunodd y Panel ar y Rhaglen Waith ar gyfer 2022-23.

Pwyntiau Trafod:

- Eitem ar anabledd plant yn ystod cyfarfod mis Ionawr i gynnwys yr holl amrywiaeth o blant ag anableddau.
- Mae angen i'r Adroddiad Monitro Perfformiad gynnwys data allweddol o adroddiad gweithlu mwy manwl. Mae gan y panel ddiddordeb arbennig mewn goruchwyliaeth, canran y staff asiantaeth, lefelau salwch, lles staff.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.55 pm